South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006-2009

a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl Interim 2009-2010

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU PERYGL

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau ac ieithoedd gwahanol gan gynnwys Braille, sain, Iaith Arwyddion Prydain a Hawdd ei Ddarllen.

Os hoffech dderbyn unrhyw wybodaeth mewn fformat gwahanol rhowch wybod i ni.

Rydym yn croesawu adborth ar ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl Interim. Mae modd gwneud hyn, neu wneud cais am fformat gwahanol drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Vicky Gregory - Uned Amrywiaeth
Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX
diversity@southwales-fire.gov.uk

Ffôn - 01443 232000

Cynnwys

1. Cyflwyniad **4**

2. Datganiad Polisi Cydraddoldeb **5**

3. Cynnydd **6**
Gwasanaethau Pobl *6*
Darparu Gwasanaeth a Chynllunio Perfformiad *7*
Cyfathrebu a Diwylliant *7*
Cymorth Corfforaethol *8*
Rheoli Risg Gweithredol *8*

4. Yr hyn na wnaethom gyflawni, rhwystrau yn erbyn cynnydd a'r hyn yr ydym yn bwriadu gwneud ynghylch y mater **9**

5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) **10**
Sut yr ydym yn cynnal AEG *10*

6. Staff a Recriwtio **11**

7. Monitro **12**

8. Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth **14**

9. Gweithgaredd Ymglymiad **15**
Mewnol ac Allanol *15*

10. Casgliad **16**

1. Cyflwyniad

Mae'r adolygiad hwn o'n Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006-2009 a chynhyrchu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl Interim wedi dod ar adeg o newid o fewn cyfraith cydraddoldeb. Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi sut y byddwn yn cynnwys cydraddoldeb i bobl anabl o fewn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl, yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi erbyn diwedd 2010. Rydym yn disgwyl canllawiau oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n berthnasol i'r ddyletswydd newydd gyhoeddus a holl gynhwysfawr, yn gynnar yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn wedi rhoi cyfle i ni edrych ar ein cyraeddiadau o ran cydraddoldeb i bobl anabl o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn ogystal â'r rhwystrau yn erbyn cynnydd. Mae'n nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud dros y flwyddyn i ddod er mwyn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl, a fydd yn cynnwys rhan sy'n nodi'n eglur ein hamcanion o ran cydraddoldeb i bobl anabl.

Er mwyn cadw'r ddogfen hon yn gryno, mae gwybodaeth gefndirol ynghylch deddfwriaeth cydraddoldeb i bobl anabl ar gael yn ein Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006-2009. Mae gwybodaeth yn ymwneud â busnes cyfredol, gwerthoedd craidd, strwythur sefydliadol ac amcanion y Gwasanaeth ar gael yn ein Cynllun Gwella a'n Cynllun Lleihau Risg. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk

Y Prif Swyddog Tân sy'n arwain cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n rheoli'r Uned Amrywiaeth yn uniongyrchol. Mae gan ein holl staff gyfrifoldeb i arddangos cydraddoldeb ag amrywiaeth drwy eu hymddygiad a'r gwaith maent yn ei gyflawni ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

2. Datganiad Polisi Cydraddoldeb

Nod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yw prif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth i mewn i bopeth y gwna. Mae'n dathlu amrywiaeth ei staff ac yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i bobl De Cymru. Bydd y Gwasanaeth yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn atal unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon, yn hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl ac yn ymdrechu i chwarae rhan hanfodol o ran hwyluso cyfiawnder cymdeithasol ac adfywiad yng Nghymru.

3. Cynnydd

Mae'r adran hon o'n adroddiad yn nodi ein cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yng Nghynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl 2006-2009. Rydym wedi sefydlu system rheoli perfformiad sy'n ein galluogi i adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion ar gyfer pobl anabl mewn modd hawdd a chyflym. Mae'r system yn anfon e-bost i'r sawl sy'n berchen ar gam gweithredu gyda dolen ynddi i lenwi ffurflen electronig fer. Caiff statws y cynllun ei ddiweddaru ar unwaith wedi i hon gael ei chwblhau, sy'n ein galluogi i weld y cynnydd a sylwi ar feysydd sydd angen sylw. Rhagwelir wrth i'r system hon ddod yn fwy soffistigedig y bydd yn darparu ffordd o adrodd yn flynyddol, neu hyd yn oed ar unrhyw adeg.

Mae ein cynnydd wedi nodi isod, o dan benawdau'r cyfarwyddiaethau.

Gwasanaethau Pobl

1. Sefydlwyd cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chynghrair Pobl Anabl er mwyn derbyn cyngor ar faterion cyflogaeth.
2. Cafodd y Polisi Recriwtio a pholisi ar gydraddoldeb i bobl anabl mewn cyflogaeth eu cyflwyno, sy'n cynnwys addasiadau rhesymol.
3. Mae'r tîm recriwtio wedi datblygu nifer o fentrau gweithredu cadarnhaol ac mae gweithgareddau recriwtio penodol, sydd wedi'u targedu, yn cael eu cynnal i ddenu pobl anabl a phobl â namau, megis sefydlu Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn ogystal â gweithio gydag Ymddiriedolaeth Shaw i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth ymysg pobl anabl.
4. Mae paragraff safonol wedi'i ymgorffori i mewn i'r polisi cwynion sy'n nodi fod angen sicrhau, yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA), fod unigolion sydd â chyflyrau sy'n dod o dan y DGA yn derbyn cefnogaeth addas wrth wneud cwyn.
5. Cafodd y Panel Cynghori Meddygol ei ailenwi'r Panel Cynghori Meddygol a Ffitrwydd, yn ôl argymhelliad y bobl anabl a gymrodd ran yn ein proses ymglymiad.
6. Mae Cynllun Mentora wedi'i ddatblygu i ymdrin â phob agwedd ar fentora cyn cyflogaeth ac wedi cyflogaeth, gan gynnwys y rhai sy'n ymuno â'r gwasanaeth o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn ychwanegol, mae'r cynllun wedi'i gynllunio i gynnig mentora i'r bobl sydd eisoes yn y gwasanaeth.
7. Mae trafodaethau ffurfiol wedi'u cynnal rhwng Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl a Chynghorydd Meddygol y Gwasanaeth i sicrhau fod materion yn ymwneud â HIV ag AIDS wedi cael eu harchwilio ar gyfer goblygiadau i'r Gwasanaeth, a bod cynlluniau gweithredu wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r goblygiadau hynny.
8. Mae absenoldeb gweithwyr yn cael ei fonitro yn ôl anabledd ac yn cael ei adolygu gan Reolwr AD.
9. Mae Rheolwr AD ar gyfer recriwtio wedi cwrdd â Chynghorwyr Anabledd mewn Canolfannau Swyddi i'w hysbysu am gyfleoedd gyrfa ar gyfer pobl anabl o fewn GTADC.
10. Mae offer ffitrwydd arbenigol wedi'u gosod yng nghampfa'r Pencadlys newydd ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, yn ogystal â gosod arwyddion a chyfarwyddiadau mewn print mawr ac wedi'u hamlygu mewn lliwiau llachar ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg.

Darparu Gwasanaeth a Chynllunio Perfformiad

1. Mae Diogelwch Tân Deddfwriaethol wedi codi ymwybyddiaeth am y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ymysg pobl anabl drwy erthyglau mewn cylchlythyron, mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau.
2. Mae Negeseuon Testun Ffôn Symudol wedi'u cyflwyno fel ffordd i bobl fyddar gysylltu â'r gwasanaethau brys ac mae'r GTA a BT yn hyrwyddo hyn. Mae minicom wedi darfod, felly mae'r Ystafell Rheoli Tân yn gweithio gyda Heddlu Gwent i weithredu gwasanaeth brys drwy neges destun i bobl fyddar.
3. Mae Camau Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl wedi'u prif ffrydio i mewn i gynlluniau busnes ac mae system rheoli perfformiad wedi'i sefydlu i adrodd ar gynnydd cyfredol. Mae hefyd yn amlygu meysydd sydd angen sylw ac yn creu adroddiadau chwarterol ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli.
4. Mae datblygiad y cynllun Diogelwch Tân yn y Cartref a Mwy yn cynnwys tîm arbenigol sy'n targedu pobl h□n a phobl anabl ar gyfer derbyn archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a chyngor ar larymau arbenigol i bobl fyddar neu bobl sydd â nam ar y clyw.
5. Mae pobl ifanc anabl yn cael eu targedu ar gyfer gweithgareddau ieuenctid, er enghraifft Fire Con Plus sy'n addysgu pobl ifanc ynghylch gyrru'n ddiogel.
6. Adnabod pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl anabl, drwy asiantaethau partner megis Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn canfod cyfeiriadau sydd wrth risg.
7. Ffurflenni Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref yn cynnwys monitro anabledd sy'n hysbysu targedau adrannol o ran creu atgyfeiriadau.
8. Partneriaethau yn eu lle i sicrhau fod cartrefi sydd â phreswylwyr anabl yn cael eu nodi ar Vision. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd yn cael dialysis adref neu sy'n derbyn ocsigen. Rydym hefyd wedi cyflwyno rhaglen o ailymweld â chartrefi a gafodd eu canfod i fod yn risg uchel yn ystod Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref blaenorol.
9. Gwaith yn y gymuned yn parhau drwy ein gorsafoedd tân.

Cyfathrebu a Diwylliant

1. Yn 2009 cafodd y gwasanaeth ei enwebu ar gyfer Gwobr Amrywiaeth, a'i hennill, am ein gwaith gyda phobl anabl. Cafodd digwyddiad ei gynnal yng Nghastell Caerdydd i ddathlu cyraeddiadau'r unigolion a'r sefydliadau a'u hymrwymiad tuag at ddatblygu cydraddoldeb i bobl anabl. Aeth y Cynghorydd Sylvia Jones a'r Prif Swyddog Tân i'r digwyddiad, gan dderbyn y wobr ar ran y gwasanaeth.
2. Gwefan newydd wedi'i lansio ym mis Medi 2008 gyda graddfa hygyrchedd o AA2. Mae'r holl offer TGCh sy'n cael ei ddarparu i unigolion (sydd â gofynion mynediad arbennig) yn bodloni rheoliadau cyfredol a chanllawiau oddi wrth y Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
3. Mae Fforwm Amrywiaeth wedi'i sefydlu sy'n cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan gynnwys Anabledd Cymru.
4. Mae Gr□p Gorchwyl Cydraddoldeb wedi'i sefydlu sy'n cynnwys rheolwyr canol a fydd yn mynd drwy broses dros y 12 mis nesaf i asesu eu swyddogaethau ar gyfer effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys cydraddoldeb i bobl anabl. Bydd hyn yn cynnwys asesiad gan gr□p o 'gyfeillion beirniadol', 4 diwrnod ymglymiad, dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg yn Mardi Gras 2009, arolwg amgylchedd gwaith mewnol yn ogystal â data ac ystadegau. Bydd y dystiolaeth hon yn hysbysu cynllun gweithredu ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Sengl.

5. Fel y nodwyd uchod, bydd y Grŵp Cyfeillion Beirniadol yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cynrychioli, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, grwpiau cydraddoldeb. Bydd y grŵp yn cynorthwyo'r gwasanaeth i asesu ei effaith ar gydraddoldeb, gan gynnwys cydraddoldeb i bobl anabl.
6. Cyfathrebu â Hyder - 'Llawlyfr ar gyfer gweithio yn y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu' wedi'i ddatblygu ar gyfer staff rheng flaen mewn partneriaeth â Race Equality First, Cynghrair Pobl Anabl ag Age Concern yn ogystal â gwybodaeth o wefan Stonewall Cymru.
7. Mae Cenhadon Pobl yn cael ei beilota ar hyn o bryd i gynyddu sgiliau a rhoi grym i nifer o staff ar draws y gwasanaeth i hyrwyddo cydraddoldeb.
8. Mae'r Awdurdod Tân (AT) yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd ar gydraddoldeb i bobl anabl. Cafodd Is-bwyllgor Cydraddoldeb yr AT ei ddiddymu a Phwyllgor AD a Chydraddoldeb newydd ei sefydlu.

Cymorth Corfforaethol

1. Cafodd y symud o'r Pencadlys yn Neuadd Lanelái i Barc Busnes Forest View ei asesu'n llawn ar gyfer effaith ar gydraddoldeb. Cafodd yr holl systemau cyfathrebu, systemau TG neu systemau eraill, eu hasesu ar gyfer effaith ar gydraddoldeb yn ystod cam cynllunio adleoli'r Pencadlys a'u rhoi ar waith o ganlyniad i hynny. Cafodd archwiliad mynediad ei gwblhau er mwyn hysbysu gofynion a chynllun mewnol yr adeilad.
2. Derbyniodd pob adeilad a gorsaf archwiliadau cydraddoldeb a chafodd adroddiad ei gyflwyno i Gyfarwyddwr Cyllid a Rheoli Asedau ar 17.10.08. Roedd yr adroddiad hwn yn hysbysu'r Gyllideb a gafodd ei gosod ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol o dan y DGA ar gyfer adeiladau cyfredol, gan gynnwys gorsafoedd tân, a gafodd ei chynnwys yn y rhaglen cyfalaf 5 mlynedd a gytunwyd arni gan yr Awdurdod Tân ar 26 Mawrth 2008. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r broses gyllideb i'r CFA.

Rheoli Risg Gweithredol

1. Ar y cyd â GTA Gogledd Cymru a GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae De Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o gomisiynu llawlyfr ar gyfer ymladdwyr tân er mwyn eu galluogi i gyfathrebu gyda phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn ogystal â chynorthwyo pobl fyddar nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf sydd mewn tân neu wrthdrawiad traffig ar y ffyrdd. Mae trafodaethau'n digwydd ar hyn o bryd i ymestyn y llawlyfr i ymdrin â'r holl ieithoedd sy'n cael eu siarad yng Nghymru.
2. Mae anghenion pobl anabl yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynlluniau tactegol sy'n cael eu ffurfio i ddelio â digwyddiadau sy'n cael eu pennu i fod yn risg uchel, fel y Bathdy Brenhinol neu Stadiwm y Mileniwm. Mae adolygiad o bolisi Cynlluniau Tactegol Gweithredol (CTG) yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Bydd ystyried pobl anabl yn ofyniad penodol wrth greu CTG yn y dyfodol.
3. Ymgynghorir â Staff, yr Uned Amrywiaeth a grwpiau cydraddoldeb er mwyn bwydo gwybodaeth i mewn i bolisïau a gweithdrefnau gweithredu safonol yn ogystal ag at ddibenion ymchwilio a datblygu.

4. Yr hyn na wnaethom gyflawni, rhwystrau yn erbyn cynnydd a'r hyn yr ydym yn bwriadu gwneud ynghylch y mater

Nid oeddem yn llwyddiannus wrth recriwtio Swyddog Cyfranogiad, ac oherwydd cyfyngiadau cyllideb cafodd y swydd ei thynnu yn ôl. Rhagwelir y bydd rhan o'r rôl hon yn cael ei pherfformio gan y Rheolwr Cyfathrebu, pan gaiff ei benodi. Yn y cyfamser, mae grŵp cydlynu wedi cwrdd i oruchwylio darn o waith interim i fapio pwy yr ydym yn ymgynghori â hwy ar hyn o bryd a beth yr ydym yn cynllunio ymgynghori yn ei gylch.

Ni ddaeth y Strategaeth Dyslecsia i fodolaeth fel strategaeth benodol, yn hytrach cafodd ymdrechion eu cyfeirio tuag at asesu effaith dyslecsia ar ein polisi ac arferion cyflogaeth.

Mae cynnydd yn ymwneud â rhoi hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ar gyfer rheolwyr goruchwyliol a staff rheng flaen yn araf; mae hyn yn rhannol oherwydd cyflwyno proses caffael newydd yng Nghymru, Gwerth Cymru.

Cafodd y Cynllun Grantiau Cymunedol, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ei adael.

5. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Sut yr ydym yn cynnal AEG?

Mae ein proses AEG wedi bod yn ei lle am bum mlynedd ac mae'r rhan fwyaf o'n polisïau, gweithdrefnau gweithredu safonol a dogfennau polisi a gweithdrefnau eraill o'r fath wedi cael eu hadolygu ddwywaith, ac felly wedi bod drwy'r broses AEG. Mae OPPD 64 Gweithdrefn ar gyfer Datblygu Polisïau a Gweithdrefnau yn cynnwys y broses AEG, sy'n orfodol ac yn cael ei wirio gan y Swyddog Polisi. Mae'r Swyddog Amrywiaeth yn cynnal archwiliadau samplu ar hap o'r AEG, gan ddarparu adborth i reolwyr ac atgyfeiriadau ar gyfer hyfforddiant. Mae AEG ac adroddiadau archwilio ar gael ar gais.

Mae'r uwch reolwyr yn cynnal AEG o ran y penderfyniadau maent yn gwneud yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli. Er enghraifft, gofynnwyd am gyngor oddi wrth grŵp anabledd lleol ynghylch effaith clefyd y siwgr ar ein hymladdwyr tân, i sicrhau bod y gwasanaeth cynnal diogelwch ein staff a diogelwch y cyhoedd.

Mae pob un o brosesau a gweithdrefnau'r Ganolfan Asesu a Datblygu, gan gynnwys chwarae rôl, yn destun AEG gan Reolwr AD a'r Swyddog Amrywiaeth.

Mae system yn ei lle i AEG pob disgrifiad swydd i sicrhau fod ein cyfleoedd swyddi yn hygyrch i'r gynulleidfa fwyaf eang posibl.

Mae'r holl lenyddiaeth hyrwyddo diogelwch cymunedol a gwybodaeth gyhoeddus yn derbyn AEG i asesu fod yr holl anghenion cyfathrebu sy'n berthnasol i'r gynulleidfa wedi cael eu hystyried.

6. Staff a Recriwtio

Bydd meddalwedd newydd yn cael ei chaffael yn 2010/2011 er mwyn coladu a monitro data staff a fydd yn cynnwys data cydraddoldeb. Bydd data yn cael ei ddal a'i ddadansoddi ar gyfer patrymau a thueddiadau o ran ymgeiswyr, dyrchafiadau, cwynion a disgyblu, diswyddiadau, hyfforddiant ac adolygiadau datblygiad personol.

Cafodd nifer o addasiadau eu rhoi yn eu lle i sicrhau fod y Pencadlys newydd yn hygyrch a chafodd yr holl fathau o gyfathrebu eu hasesu i sicrhau fod ein staff yn teimlo fel eu bod wedi'u cynnwys a'u bod yn gallu cyfathrebu.

Mae cronfa ddata gyfrinachol yn cael ei chynnal gan Reolwr AD ar gyfer Cysylltiadau Gweithwyr o ran staff anabl. Rhagwelir y bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn ar adeg dechrau swydd gyda'r gwasanaeth ac yna cyfrifoldeb yr unigolyn fydd diweddaru eu proffil eu hunain. Bydd hyn wedi'i gysylltu â rhif staff a chaiff ei ddefnyddio i adrodd yn erbyn meysydd megis ymgeiswyr sy'n llwyddiannus neu aflwyddiannus o ran cyflogaeth, mynediad staff at hyfforddiant a datblygiad, dyrchafiadau yn ogystal â'r rheiny sy'n gwneud neu'n destun gweithdrefnau cwyno a disgyblaeth.

Oherwydd yr hinsawdd economaidd gyfredol, mae disgwyl y bydd ein trosiant o ran staff yn isel dros y misoedd i ddod.

7. Monitro

Mae'r systemau ar gyfer monitro proffiliau staff a'u mynediad at gyfleoedd yn ogystal â chanfod patrymau neu dueddiadau yn digwydd ar hyn o bryd drwy system cronfa ddata PS sy'n cael ei diweddaru drwy gynnal arolwg staff. Mae Pennaeth AD yn adolygu'r wybodaeth hon a'i defnyddio i hysbysu gwelliannau.

Mae monitro darpariaeth gwasanaeth, yn benodol o ran tanau, yn digwydd drwy'r System Cofnodi Digwyddiad, a ddisodlodd y Ffurflen Adrodd am Ddifrod oherwydd Tân (FDR1). Gwnaeth adolygiad o'r system gan yr Uned Amrywiaeth nodi fod anabledd yn ymddangos mewn dwy adran, y tro cyntaf wrth nodi 'a oedd anabledd person yn ffactor a gyfrannodd' i'r tân ac yr ail dro i gofnodi proffil y bobl a gafodd eu hanafu neu a fu farw. Nodwyd y dylid archwilio gwerth cofnodi anabledd fel ffactor sy'n cyfrannu i dân a hefyd bod angen adolygu'r derminoleg yn yr adran 'help'; cafodd newidiadau addas eu cyflwyno. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei choladu gan Uned Polisi Tân y Gymuned a'r Llywodraeth Leol at ddibenion archwiliad; nid yw'n eglur os yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i hysbysu mentrau neu dargedau lleihau risg, ac os ydy'n cael ei defnyddio, ym mha ffordd.

Mae angen i'r GTA weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau megis yr Heddlu a'r gwasanaeth Ambiwlans i leihau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Yr Heddlu sydd a'r cyfrifoldeb pennaf am hyn. Mae anafiadau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar ffurflen Stats 19 sy'n cynnwys opsiwn ar gyfer datgelu anabledd. Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i rannu'r wybodaeth hon rhwng asiantaethau er mwyn hysbysu mentrau atal addysgol.

Arolwg Ansawdd Gwasanaeth: Mae Arolwg Wedi'r Digwyddiad yn cael ei gwblhau ar ran y gwasanaeth gan Opinion Research Services, sy'n rhan o Brifysgol Abertawe. Arolwg drwy'r post ydyw i gyfeiriadau preswyl a busnes sy'n cael eu dewis am eu bod wedi profi digwyddiad a gafodd ei fynychu gan GTADC. Mae'r arolwg yn coladu data sy'n berthnasol i'r cyswllt cyntaf, adeg y digwyddiad, gwybodaeth a chyngor yn ymwneud â chyngor diogelwch tân ac archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar gyfer digwyddiadau domestig yn unig. Mae'r arolwg yn coladu gwybodaeth ynghylch y bobl oedd ynghlwm â digwyddiadau domestig ac erbyn hyn mae'n cofnodi data am anabledd, oedran, rhyw a tharddiad ethnig.

Dangosodd ymchwil 2009 - 2009 fod pob un a siaradodd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub eu hunain ac yna a ymatebodd i'r arolwg, domestig ai peidio, (100%) yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyswllt cyntaf.

Mewn perthynas â gwasanaeth adeg y digwyddiad, roedd ymatebwyr yn hynod gadarnhaol ynghylch yr ymladdwyr tân a fynychodd. Roedd pob un annomestig a ymatebodd yn cytuno eu bod yn gwrtais, tra bod bron pob un domestig a ymatebodd yn adrodd hyn. Roedd bron pawb a ymatebodd yn cytuno fod yr ymladdwyr tân yn gynorthwyol, effeithiol ac yn llawn gwybodaeth. Roedd y rhan fwyaf o bobl a ymatebodd yn cytuno eu bod yn sensitif. Roedd 98% o'r bobl ddomestig a ymatebodd a 99% o'r bobl annomestig a ymatebodd yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd adeg y digwyddiad.

O ran gwybodaeth a chyngor, roedd 38% o'r bobl ddomestig a ymatebodd wedi cael cynnig Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref ac 82% o'r rheiny wedi derbyn. Wedi ystyried popeth, daethpwyd i'r casgliad fod bron pob un domestig (98%) ac annomestig (97%) a ymatebodd yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd adeg y digwyddiad.

Mae pob cwestiwn ar gyfer digwyddiadau mewn anheddau domestig yn cael eu dadansoddi yn ôl rhyw, anabledd, oedran a tharddiad ethnig. Mae'r data'n cael ei ddefnyddio'n fewnol ar hyn o bryd ond byddwn yn ymchwilio'r cwmpas ar gyfer cyhoeddi'r wybodaeth benodol hon.

Mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli yn chwarterol ac yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol ar ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk

8. Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Dechreuodd y rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb yn 2005 gyda'r uwch reolwyr. Mae hyfforddiant ar gyfer uwch reolwyr a rheolwyr canol wedi'i gwblhau, mae hyfforddiant i reolwyr goruchwyliol allan ar dendr ac mae staff y rheng flaen dal yn aros i dderbyn hyfforddiant.

Mae hyfforddiant AEG yn parhau ond bydd yn cael ei addasu i fynd i'r afael â materion a phatrymau newydd yn 2010.

Mae'r Uned Amrywiaeth wedi hwyluso gweithdai ar gyfer tua 100 aelod staff ynghylch ymgysylltu â chymunedau fel rhan o'r hyfforddiant ar gyfer Lleihau Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd.

9. Gweithgaredd Ymglymiad

Mewnol

Cafodd gweithdai ac ymgynghoriadau staff eu cynnal yn ystod cam cynllunio symud y Pencadlys.

Allanol

Wrth gynnal ein busnes arferol yr hyn yr oedd pobl anabl yn dweud wrthym oedd mai eu prif bryder oedd yr angen am wybodaeth yn ymwneud â diogelwch tân, yn arbennig o ran eu hawliau yn y gwaith ac mewn mannau cyhoeddus. Fel ymateb i hyn, rhoddodd y tîm diogelwch tân erthyglau mewn cylchlythyron, cwrdd â grwpiau pobl anabl lleol a chymrodd yr uwch reolwyr ran mewn diwrnodau ymglymiad a chyfarfodydd gyda grwpiau pobl anabl. Mae'r tîm wedi bod yn hanfodol wrth gynorthwyo'r Uned Amrywiaeth i gydlynu dau Ddiwrnod Ymglymiad ar gyfer Pobl Hŵn a Phobl Anabl sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 11 a 23 Mawrth 2010 ym Merthyr Tudful a Chaerdydd.

10. Casgliad

Rydym yn falch o'n cynnydd tuag at gydraddoldeb i bobl anabl ond yn ymwybodol fod dal gwaith i'w wneud. Mae'r adran nesaf yn gosod ein camau gweithredu interim ar gyfer 2010 i sicrhau fod anabledd yn parhau'n fater ar wahân ond eto wedi'i integreiddio i mewn i Gynllun Cydraddoldeb Sengl a ddylai gael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2010.

Cam Gweithredu	Cyfarwyddiaeth	Y Person Cyfrifol	Terfyn Amser	Statws
Sefydlu Grŵp Gorchwyl Cydraddoldeb i Ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl	Cyfathrebu a Diwylliant	Swyddog Amrywiaeth	Tachwedd 2009	Wedi'i gwblhau
Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Sengl	Pob un	Grŵp Gorchwyl Cydraddoldeb Swyddog Amrywiaeth	Medi 2010	
Sefydlu Cyfeillion Beirniadol i gynnal EAG o swyddogaethau'r GTA	Pob un	Grŵp Gorchwyl Cydraddoldeb	Mawrth 2010	
Cydlynu diwrnodau Ymglymiad Pobl Hŵn a Phobl Anabl ar 11 a 23 Mawrth ym Merthyr Tudful a Chaerdydd	Cyfathrebu a Diwylliant	Swyddog Amrywiaeth Rheolwr Grŵp Diogelwch Tân Rheolwr Grŵp Diogelwch Cymunedol	Mawrth 2010	Mae 4 cyfarfod cynllunio wedi digwydd Partneriaeth wedi'i sefydlu gydag Age Concern a Chynghrair Pobl Anabl Lleoliadau wedi'u trefnu ar gyfer 11 a 23 Mawrth 2010
Arolwg Amgylchedd Gwaith	Pob un	Grŵp Gorchwyl Cydraddoldeb		
Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Rheolwyr Goruchwyliol	Gwasanaethau Pobl	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Pobl	Hyfforddiant wedi'i gwblhau 2010	Tendr wedi'i ddrafftio
Dosbarthu a hyrwyddo Cyfathrebu â Hyder	Cyfathrebu a Diwylliant Gweithrediadau	Swyddog Amrywiaeth	Ionawr 2010	Dogfen yn cael ei phrawf ddarllen
Adolygu system electronig AEG a sefydlu mecanwaith adrodd. Ail-dendro ar gyfer hyfforddiant AEG a'i gyflwyno i bersonél GTA cyn gynted â phosibl.	Cyfathrebu a Diwylliant Gwasanaethau Pobl	Swyddog Amrywiaeth Swyddog TG Rheolwr Hyfforddiant	Mehefin 2010	Archwiliad AEG wedi'i gwblhau
Datblygu safle Rhyngrwyd a Mewnrwyd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel ffynhonnell wybodaeth				
Archwilio'r cwmpas o ran cyhoeddi data cydraddoldeb a goladwyd yn yr Arolwg Wedi'r Digwyddiad	Cymorth Corfforaethol	Cyfarwyddwr Cymorth Corfforaethol	Mehefin 2010	